

Rhif: **WG23293**

Ymgynghoriad: Adolygiad o'r Broses o Lunio Cynlluniau Datblygu Lleol

- Atodiad 3: FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Hoffem gael eich barn ar ein diwygiadau arfaethedig i wella'r dogfennau cyfarwyddyd a'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â llunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Wrth ddarllen y cwestiynau canlynol, ystyriwch a ydych chi'n cytuno ag egwyddor y newidiadau arfaethedig a manylion y diwygiadau.

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn **2^{il} Ionawr 2015**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,

e-bostiwch: planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk

neu ffoniwch: 029 2082 6956 / 3710; neu 0300 0625426.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu'n ymddangos mewn adroddiad.

Pe byddai'n well gennych i ni beidio â dangos eich enw a'ch cyfeiriad ar ddogfennau a gaiff eu cynhyrchu, ticiwch y bocs hwn

Pe byddai'n well gennych i ni beidio â dangos eich manylion mewn unrhyw ddogfen, ticiwch y bocs hwn

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

**Adolygiad o'r Broses o Lunio Cynlluniau Datblygu Lleol
(Ymgynghoriad)**

Dyddiad 1^{af} Hydref 2014 – 2^{il} Ionawr 2015

Enw	Rhian Jardine	
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru	
Cyfeiriad		
Cyfeiriad e-bost		
Ffôn		
Math <i>(dewiswch un o'r canlynol)</i>	Busnes	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	X
	Cwmni Proffesiynol / Grŵp Buddiant	<input type="checkbox"/>
	Y sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cydweithrediadau, mentrau, grwpiau crefyddol, cyrff dielw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru)	<input type="checkbox"/>

C1	<u>Trafodaethau rhagarweiniol / safleoedd amgen</u>	X
	Gyda'r cynnig i drafod y safleoedd yn well ar y dechrau a Strategaeth a Ffefrir fwy diffiniedig a llawn gwybodaeth, ydych chi'n cytuno na fyddai unrhyw un dan anfantais pe byddem ni'n cael gwared ar y cam 'safleoedd amgen' (Rheoliadau 20 a 21)?	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	X
	Rwy'n anghytuno	
C1	Sylwadau eraill	
	Dim sylwadau	

C2	<u>Adroddiad adolygu</u>	X
	Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi a chyhoeddi Adroddiad Adolygu i gyfiawnhau a yw diwygiad llawn neu rannol yn briodol, ac a ddylai'r cam hwn fod yn rhan o'r pecyn dogfennau angenrheidiol yn ystod y cam cyn-adneuo, adneuo a chyflwyno?	
	Rwy'n cytuno	X
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno	
C2	Sylwadau eraill	
	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion y dylai ACLI baratoi a chyhoeddi Adroddiad Adolygu er mwyn llywio a chyfiawnhau a yw diwygio'r CDLI yn llawn neu'n rhannol yn briodol.	

--

C3	<u>Ffordd Gyflym o Ddiwygio'r Gweithdrefnau</u>	X
	Os yw awdurdod yn cynnig gwneud diwygiadau rhannol i'r CDLI sydd wedi'i fabwysiadu ac mae strategaeth y cynllun yn parhau i fod yn gyflawn, ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno proses adolygu gyflym (mae'n gynt, yn fyrrach ac yn fwy cymesur)?	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno	
C3	Sylwadau eraill	
	Er ein bod yn croesawu'r cynigion i gyflymu'r broses o lunio cynlluniau, a'r cynigion ar gyfer ffordd gyflym o ddiwygio'r gweithdrefnau, ni ddylai hynny fod ar draul ystyriaeth lawn o unrhyw ddiwygiadau i'r CDLI drwy brosesau Asesu Amgylcheddol Strategol ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd, a chydymffurfiaeth â'r prosesau hynny.	

C4	<u>Profion cadernid</u>	X
	Ydych chi'n cytuno â'r pecyn arfaethedig o brofion cadernid?	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	X
	Rwy'n anghytuno	
C4	Sylwadau eraill	
	Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno'n gyffredinol â'r pecyn arfaethedig o brofion cadernid, hoffem wneud y sylwadau canlynol ynglŷn â phrawf 1 a phrawf 2. Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas? Nid yw'n glir pryd y dylai'r diwygiadau arfaethedig i broses y CDLI gael eu gweithredu, hynny yw cyn pasio'r Bil Cynllunio (Cymru) yn ddeddf, neu ar ôl i'r Bil gael ei basio. Os mai'r olaf	

sy'n berthnasol, fel rhan o Brawf 1, mae'r ymgynghoriad ynghylch â llawlyfr y CDLI yn gofyn 'a yw'r CDLI wedi ystyried Cynllun Gofodol Cymru'. Dylai pob cyfeiriad at Gynllun Gofodol Cymru gael ei ddiwygio i gyfeirio at Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. At hynny, dylid darparu gwybodaeth ynglŷn â pha ystyriaeth/pwys y dylid ei rhoi/ei roi ar Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi CDLIau nes bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i baratoi ac wedi'i fabwysiadu, yn enwedig o ystyried pa mor hen yw Cynllun Gofodol Cymru.

C5	<u>Dull Integredig</u>	X
	<p>a. Ydych chi'n cytuno y byddai defnyddio dull integredig i werthuso cynaliadwyedd (gan gynnwys gwerthuso amgylchedd strategol) yn llawn wrth baratoi CDLI yn creu arbedion ac yn lleihau cymhlethdod?</p> <p>b. Ydych chi'n cytuno na fyddai'r integreiddiad hwn yn gwrthdaro ag unrhyw broses statudol?</p>	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno	X

C5	<u>Sylwadau eraill</u>
<p>Nod y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol yw '<i>to provide for a high level of protection of the environment and to contribute to the integration of environmental considerations into the preparation and adoption of plans and programmes with a view to promoting sustainable development</i>'. Nid yw'r awgrym ym Mholisi Cynllunio Cymru Drafft bod AAS ond yn ymwneud â datblygu cynaliadwy yn adlewyrchu nod nac ysbryd y Gyfarwyddeb ac mae'n peryglu'r prif nod o roi diogelwch amgylcheddol strategol. Felly rydym yn argymhell y dylid diwygio paragraff 2.3.2 o'r ymgynghoriad ar Bennod 2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn unol â hynny</p> <p>Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol o natur weithdrefnol ac mae'n nodi'n glir y broses sydd ei hangen ar gyfer asesu, gofynion ymgynghori a'r hyn y mae angen ei gynnwys mewn adroddiad amgylcheddol Felly ceir gofyniad statudol i gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb. Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi y gellir cynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol mewn asesiad ehangach o effeithiau'r cynllun neu'r rhaglen – er enghraifft, fel rhan o asesiad cynaliadadywedd sydd hefyd yn cwmpasu effeithiau cymdeithasol ac economaidd. Lle y gwneir hyn, mae'n rhaid i'r ddogfen ddangos yn glir y cydymffurfiwyd â'r Gyfarwyddeb, er enghraifft drwy gyfeiriadau sy'n ei gwneud yn bosibl i'r elfennau sy'n bodloni gofynion yr Adroddiad Amgylcheddol gael eu nodi'n hawdd. Rydym yn argymhell y dylid diwygio paragraff 2.3.4 o bennod 2 o Bolisi Cynllunio Cymru Drafft er mwyn adlewyrchu hyn yn gywir.</p> <p>Mae ein sylwadau ynglŷn ag Atodiad 1.2 o'r Llawlyfr CDLI Drafft yn rhoi cyngor pellach ar y mater</p>	

hwn.

C6	<u>Adnoddau</u>	X
	Yn Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, ydych chi'n cytuno ag ychwanegu 'adnoddau' fel mater y dylid rhoi sylw iddo yn Rheoliad 13, gan gofio bod yn rhaid i strategaethau'r CDLI gael eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun?	
	Rwy'n cytuno	x
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno	
C6	<u>Sylwadau eraill</u>	
	Er mwyn sicrhau na chaiff tir ei ddiffwytho/ei roi o dan falltod rydym yn cytuno â'r cynnig i gynnwys 'Adnoddau' fel mater y mae'n rhaid i'r CDLI ei ystyried.	

C7	<u>Dyddiad Gorffen</u>	X
	Yn Rheoliadau'r CDLI, ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu dyddiad gorffen i gyfnod y CDLI (h.y. diwedd y cyfnod y mae'r CDLI yn cynllunio ar ei gyfer) i'r is-deitl CDLI yn Rheoliad 11(1)(b)?	
	Rwy'n cytuno	x
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno	
C7	<u>Sylwadau eraill</u>	
	Rydym yn croesawu'r nod o sicrhau bod cynlluniau'n gyfredol ac yn berthnasol o hyd ac o'r farn y bydd cyflwyno dyddiad gorffen ar gyfer CDLI yn helpu i gyfrannu at y broses honno.	

--

C8	<u>Hysbysiad yn y wasg leol</u>	X
	Yn Rheoliadau CDLI, ydych chi'n cytuno â chael gwared ar y gofyniad i roi hysbysiad yn y wasg leol (e.e. yn Rheoliad 22(5)(b), Rheoliad 23(1)(c); 24(2)(b); 25(2)(c) a 26(b))? Rheoliad 23(1)(c); 24(2)(b); 25(2)(c); 26(2)(b))?	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	X
	Rwy'n anghytuno	

C8	Sylwadau eraill
	Dim sylw

C9	<u>Ymgyngoreion</u>	X
	Ydych chi'n cytuno â'r rhestr ddiwygiedig o ymgyngoreion statudol?	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	X
	Rwy'n anghytuno	

C9	Sylwadau eraill
	Er ein bod yn cytuno'n fras â'r rhestr o ymgyngoreion a nodir yn y Llawlyfr CDLI drafft, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai rhestr o grwpiau amgylcheddol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol yn cael ei darparu. Er enghraifft, Ymddiriedolaethau Natur Cymru,

RSPB, YDCW, yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, Cymdeithas Genedlaethol awdurdodau AHNE.

C10	<u>Pecyn Cyfarwyddiadau</u>	X
	Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cael pecyn o gyfarwyddiadau sy'n cynnwys dwy ddogfen gryno ac sy'n eithrio'r angen am <i>CDLI Cymru?</i> (Cofiwch, bydd y cyfarwyddyd cyhoeddus, <i>Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn cyflwyno Cynlluniau Lleol (CauDLI) 2006</i> yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau y cytunir arnynt).	
	Rwy'n cytuno	
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	X
	Rwy'n anghytuno	
C10	Sylwadau eraill	

C11	<u>Camgymeriadau</u>	X
	Oes yna unrhyw gamgymeriadau ffeithiol yn y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol?	
	Rwy'n cytuno (oes)	X
	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	
	Rwy'n anghytuno (nac oes)	
C11	Sylwadau eraill	

Gweler y sylwadau a nodir o dan C12.

C12

Unrhyw sylwadau eraill

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw broblemau penodol nad ydym wedi'u nodi, defnyddiwch y gofod hwn i wneud sylwadau amdanyr nhw.

Sylwadau cyffredinol

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyfle i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod y ffordd orau o integreiddio rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol â chynlluniau datblygu lleol gan gynnwys darparu sylfaen tystiolaeth cyson a chynghor a chanllawiau technegol.

Mae angen diwygio llawer o'r manylion ynglŷn ag Asesu Amgylcheddol Strategol ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn iddynt adlewyrchu gofynion deddfwriaethol yn fwy cywir.

Ceir nifer o gyfeiriadau at Gynllun Gofodol Cymru y bydd angen eu disodli yng ngoleuni'r darpariaethau a geir yn y Bil Cynllunio (Cymru), a bydd angen cyfeirio at y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn lle hynny.

Sylwadau penodol

Polisi Cynllunio Cymru Drafft – Pennod 2 Cynlluniau Datblygu Lleol

Para 2.2.6 Mae angen egluro a oes angen dangos ffiniau safleoedd N2K a SoDdGAau ar y map o gynigion, pan fydd yn debygol bod polisi sy'n diogelu ardaloedd o'r fath, neu sy'n nodi eu bod yn ardaoedd lle mae cyfyngiadau'n gymwys. (Gweler paragraff 2.2.3).

Para 2.2.7 Er y dylai fod dull strategol o ymdrin â datblygu fesul cam, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y bydd rhai amgylchiadau yn codi lle y gall terfyn ar nifer y caniatadau fod yn briodol er mwyn osgoi effeithiau ar nodweddion amgylcheddol, yn enwedig o ran safleoedd Ewropeaidd nes bod atebion priodol wedi cael eu nodi a'u rhoi ar waith. Er enghraifft mae datblygiad sy'n gollwng dŵr budr neu ddŵr wyneb i mewn i ddalgylch Bae Caerfyrddin a Chilfach Tywyn wedi cael ei asesu fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer CDLI Abertawe a CDLI Sir Gaerfyrddin, gan y nodir bod cynnal ansawdd dŵr yn un o amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd morol Ewropeaidd yn yr ardal hon. Gan fod terfyn ar y capasiti yn y system bresennol, unwaith y caiff y capasiti hwnnw ei ddihysbyddu, yna byddai unrhyw gysylltiadau ychwanegol yn gofyn am ddarparu capasiti newydd er mwyn osgoi dirywiad posibl yn ansawdd y dŵr. Pe bai datblygiad fesul cam yn seiliedig ar amserlen yn unig, yn achos ardal Cilfach Tywyn, byddai hynny'n cyfyngu ar bob datblygiad nes bod Dŵr Cymru wedi uwchraddio ei seilwaith.

Felly dylid diwygio'r testun yn unol â hynny.

Para 2.2.8 Gellid diwygio'r testun fel y dylid ystyried 'graddau rhesymol o ddewis a hyblygrwydd' mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng nghyd-destun dibenion statudol Parciau Cenedlaethol, yn enwedig gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.

Para 2.3.3 Byddem yn croesawu'r bwriad i'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol fod yn gymwys i ganllawiau cynllunio atodol. Fodd bynnag, efallai y bydd pob cynllun a rhaglen isradd sy'n deillio o'r CDLI ac nid canllawiau cynllunio atodol yn unig, yn gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol ee prif gynlluniau. Rydym yn argymhell y dylid ehangu'r

troednodyn/croesgyfeiriad at y Rheoliadau ynglŷn ag asesu'r effaith amgylcheddol i gynnwys pob rheoliad ynglŷn ag asesu'r effaith amgylcheddol a chyfundrefnau caniatadau, nid dim ond Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999.

2.3.5 Er bod y cyfeiriad at nodi 'yr amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar gyfer diffinio datblygu cynaliadwy' yn briodol ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd, nid yw'n adlewyrchu amcanion y Gyfarwyddeb na'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol sef, '*to provide for a high level of protection of the environment and to contribute to the integration of environmental considerations into the preparation and adoption of plans and programmes with a view to promoting sustainable development*' fel y nodir uchod mewn ymateb i C5. Er mwyn bod yn gyson â nod craidd Cyfarwyddeb 2001/42/EC, er mwyn rhoi lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd, rydym yn argymhell y dylid diwygio'r testun i egluro y dylai'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'i ganlyniad gael ei ddiffinio a'i gyflwyno'n glir.

2.3.6 Gan fod Asesiad Amgylcheddol Strategol yn un o ofynion cyfreithiol y broses o lunio cynllun, rydym yn argymhell y dylid diwygio'r testun er mwyn adlewyrchu'r gofyniad hwn. Nid yw ystyried dewisiadau amgen yn opsiwn yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Felly rydym yn argymhell y dylid aileirio 'alternative policies (where appropriate), proposals and location' er mwyn ei gwneud yn glir bod y broses Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i ddewisiadau amgen rhesymol gael eu hystyried.

2.3.7: O ystyried bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad cyfreithiol a bod y broses yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r amgylchedd, rydym yn argymhell y caiff y trydydd pwynt bwled ei leoli uwchben y tri phwynt, a bod yr adran hon yn ei gwneud yn glir na ddylai polisiau, cynlluniau na rhaglenni sy'n peryglu'r amgylchedd a swyddogaethau/gwasanaethau ecosystemau gael eu hystyried yn 'gynaliadwy'.

2.3.8: Gweler y sylwadau uchod ar bara 2.3.4 mewn ymateb i C5.

2.3.9: Mae'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol a chanllawiau'r DU yn glir iawn o ran yr angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ac, oni bai bod penderfyniad ynglŷn â sgrinio wedi dod i'r casgliad annhebygol nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol, nid oes angen cyhoeddi opsiwn sgrinio (na hyd yn oed ymgymryd ag ymarfer sgrinio). Fodd bynnag, dylai ymarfer sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol gael ei gynnal ar gyfer canllawiau cynllunio atodol a chynlluniau/rhaglenni isradd eraill. Mae angen i'r testun fel y'i drafftwyd gael ei ddiwygio er mwyn egluro mai'r sawl sy'n llunio'r cynllun/awdurdodau cyfrifol sy'n gyfrifol am gam cwmpasu'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol ac yna geisio barn y cyrff ymgynghori statudol ynglŷn â chwmpas a lefel y manylion sydd eu hangen yn yr adroddiad amgylcheddol. Dylid cyfeirio at y gofyniad statudol i gynnal ymgynghoriad ar y cam hwn o'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol. Rydym yn argymhell y dylai'r adran hon gael ei diwygio yn unol â hynny.

2.3.10: Unwaith eto mae'r awgrym y dylai'r sawl sy'n llunio'r cynllun/awdurdodau cyfrifol weithio gyda chyrrff ymgynghori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a pharatoi adroddiad Asesu Strategol ychydig yn rhyfedd. Er bod trafodaeth anstatudol ag ymgynghoreion perthnasol ac ati i'w chrosawu ac y dylid ei hannog, y sawl sy'n llunio'r cynllun sy'n gyfrifol am gynnal y broses asesu.

2.3.11: Dylid cyfeirio at y gofyniad statudol i gynnal ymgynghoriad ar y cam hwn o'r broses

Asesu Amgylcheddol Strategol.

2.3.12 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: (Dylid ei ail-rifo'n 2.3.13)

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys dau gam - prawf ar bwysigrwydd tebygol ac asesiad priodol. Yn y frawddeg olaf ond un o'r paragraff dylai'r testun nodi felly: 'If such effects are likely, the plan must be subject to an appropriate assessment.'

Wrth gyfeirio at y safleoedd y mae angen eu hystyried, dylid cyfeirio at yACAau hefyd.

2.3.13: O ran 'am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig', dylai'r testun nodi'n glir mai dim ond lle nad oes unrhyw ddewisiadau llai niweidiol (mewn sefyllfa sy'n debygol o fod yn brin iawn yng nghyd-destun CDLI) y gellir ystyried 'am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig, a hyd yn oed wedyn, dim ond os gellir rhoi mesurau cydbwysu ar waith.

2.5.9 Mae angen eglurhad ynglŷn â'r broses lle mae anghytundeb rhwng yr awdurdodau lleol ar fater mewn CDLI ar y cyd.

Atodiad 1.2 i'r Llawlyfr Drafft ar CDLIau

Mae angen i lawer o'r manylion ynglŷn ag Asesu Amgylcheddol Strategol ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu gofynion cyfreithiol yn well. Byddem yn croesawu cyfle i gyfarfod a thrafod o ystyried ein rôl fel 'corff ymgynghori'.

Paratoi Cynllun; Opsiynau Strategol a Strategaeth a Ffefrir – mae angen cyfeiriad at Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Paratoi i Adneuo - Mae angen cyfeiriad at ddiweddariad ychwanegol o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu – Ychwanegu cyfeiriad at yr angen i nodi a oes unrhyw faterion o ran Asesu Rheoliadau Cynefinoedd.

Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau erbyn **2^{il} Ionawr 2015** gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost	Post
<p>Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i h-ebostio i:</p> <p>planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk</p> <p>Nodwch 'Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 23293 ar Adolygu'r Broses o Lunio CDLI ' yn llinell pwnc y neges e-bost]</p>	<p>Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:</p> <p>Ymgynghoriad Adolygu'r Broses CDLI Y Gangen Cynlluniau Yr Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p>

Gwybodaeth ychwanegol
<p>Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, E-bostiwch: planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk</p> <p>Rhif ffôn:: Carole Doyle - 029 2082 6956, Elaine Ancrum - 029 2082 3710, neu Heledd Cressey - 0300 0625426.</p>